

Dadorchuddio Patagonia: Y Gweithgareddau gan Menna George

Y Cymro, 19 Mai, 2001

Fe'm magwyd i ar fferm, ac fel pob plentyn a fagwyd yng nghanol bwrlwm di-dor o weithgareddau amaethyddol 'dw i'n cofio achwyn droeon am yr holl bethau roedd yn rhaid i mi wneud wrth gymryd fy rhan ym mywyd y fferm. Ymateb arferol 'nhad i'r cwyno yma fyddai "Menna ... 'laddodd gwaith caled neb erio'd!" Erbyn hyn 'dw i mor falch i mi gael y fath 'hyfforddiant', gan fod y flwyddyn olaf yma wedi bod yn farathon blesurus iawn o fwrlwm di-dor o weithgareddau!

Ym Mawrth 2000 cefais i'r swydd rwyf nawr yn ei chyflawni. Swydd ddysgu a hysbysebwyd ond mae'r pump ohonom yn gwneud cymaint yn fwy na dysgu Gymraeg mewn dosbarthiadau. Ers dod yma i Ddyffryn Camwy, diolch i'r swydd sydd gen i, 'dw i wedi ennill gymaint o brofiadau ac ehangu fy ngorwelion mewn nifer o wahanol gyfeiriadau y tu allan i faes addysg.

Heb sôn am ddysgu'r Gymraeg yn y dosbarthiadau, mae angen estyn profiadau'r plant o'r iaith a'r diwylliant i'w bywyd pob dydd. Bron yn syth ar ol i mi gyrraedd yma gwelais yr angen am weithgareddau hamdden i blant ifainc y dosbarthiadau yn y Dyffryn, felly dyma sefydlu cynllun chwarae wythnosol yn Gaiman. (Hwyrach i chi glywed peth o frwdfrydedd y plant at y gweithgareddau yma tra'n gwrandao ar gyfres BBC Radio Cymru 'Plant y Paith'? Cafodd Dafydd Du sawl awr o weithgareddau bywiog gyda'r plant yn ystod ei ymweliad a'r Wladfa mis Hydref llynedd.) Yn ffodus, roeddwn wedi cael tair mlynedd o brofiad o arwain cynlluniau chwarae dan Fenter Iaith Aman Tawe cyn dod yma, felly roeddwn yn gwybod am weithgareddau chwaraeon sydd yn rhoi mwynhad i'r plant tra'i bod yn dysgu iaith yn ddjarwybod iddynt.

Buaswn i byth wedi meddwl flwyddyn yn ol y buaswn i'n cyfrannu i **un** papur newyddion, heb son am i ddau! Wrth gwrs, mae fy nghyfraniadau rheolaidd i a'r pedwar athro arall i Y Cymro yn hyrwyddo'r Gymraeg yma ym Mhatagonia trwy roi blas i chi adref ar fywyd yn Y Wladfa, ond mae'r hyn 'dw i'n gwneud ym mhob rhifyn o'r misolyn lleol 'El Regional' a chysylltiad llawer agosach at fy swydd yma.

Cornel y Plant

Espectol para los estudiantes del idioma galés

Y dosbarthiadau Cymraeg



gyda Menna

Helo blant. Sut ydych chi? Iawn gobeithio.
Mae gen i ragor o bethau i chi wneud mis
yma eto.

Mae Rhian yn hoffi pŵsau.
Dyma bŵs i Rhian a chil

Mae saith gair AR DRAWS yn y pŵs yma.
Mae un gair i LAWR.
Beth yw'r gair sydd i LAWR?

L M W R C O E S P
B L O D Y N A A P
S B T O M A T O I
F W M E R C H O I W
N J L P A F A L E
U R W I E N F Y S
J B A C H G E N N T



Mae'r hydref wedi dod ac mae dail y coed yn newid lliw.
Lliwioch y llun yma i ddangos y coed yn yr hydref - gyda
dail brown ac oren a melyn a choch.



Mae Dafydd yn
hoffi sialens.
Dyma sialens i
Dafydd a chil Beth
yw'r DEG peth sy'n
wahanol am y
ddau dedi yma?

CYSTADLEUAETH

Diech yn fawr i bawb sydd wedi danfon llun ohonyn nhw eu
hunain yn mynychau'r haf.
Mia nesaf byddid yn deud wrthoch chi pwy enillodd.
Y gystadleuaeth y tro yma yw i dynnu llun o'ch ty chi yn yr hydref.
Danfonwch eich lluniau i fi (Galman / Delavan) neu Rhys (Trefw)
erbyn Mai'r 10fed.

Diech yn fawr.
Hwyl am nawr,
Menna



FAX: (02920) 482228
CEL: 15044987

El Regional

E-mail: elregional@maninfovia.com.ar

TRELEW COLOR

Pellegrini 235 - Tel: 427030

Calidad Controlada AGFA

REVELADO 1 HORA

CON SU
REVELADO Y 24 ó 36
ENTREGAS:

— UN ROLLO AGFA

— EL PORTANEGATIVOS

— UNA AMPLIACION

— UN ALBUM

**FOTOS
GARNET \$ 2.00**

TR. REALIZADO:

— UN PORTANEGATIVOS

— UNA AMPLIACION

— Y EL NEGATIVO...

Pob mis mae gen i dudalen o weithgareddau amser hamdden yn Gymraeg i blant a phobl ifainc eu gwneud ... lliwio, crefftau a phosau. Pob mis mae yna gystadleuaeth hefyd, lle mae'r plant yn ceisio ennill nwyddau sydd a chysylltiad a Chymru – fel nwyddau gan BBC Radio Cymru ac hefyd, Cronfa Rygbi'r Ddraig. (Diolch iddynt am eu nawdd.)

Mae manteision deublyg i gael y fath dudalen yn 'El Regional' (misolyn Sbaeneg ei iaith wrth gwrs). Yn gyntaf, mae'n dangos i'r disgyblion eu hunain fod gan y Gymraeg le gwerthfawr a statws yn y gymuned. Yn ail, wrth weld y dudalen yng nghanol newyddion lleol, mae pobl sydd heb gysylltiad a'r iaith Gymraeg yn cael eu cyflwyno iddi. Dw i hefyd wedi clywed rhai o'm disgyblion yn son am aelodau o'u teuluoedd yn eu holi am ystyr y pethau ar y dudalen, a hwythau'n teimlo'n hynod o falch o'u hunain am fedru cyfieithu iddynt. Mae'n ymddangos felly fod y dudalen yn pontio cenedlaethau ... a oedd yn un o'r nodau wrth gychwyn ar y fenter llynedd.

Elfen bwysig iawn o'r swyddi dysgu Cymraeg yma yn Y Wladfa ym Mhatagonia yw i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned ... ac mae'r pump ohonom yn cymryd rhan rheolaidd mewn ffeiriau diwylliannol lleol. Beth mae hyn yn ei olygu? Wel, yn bennaf mae'n golygu cymryd ein tro gyda phobl leol ar stondin 'Yr Ysgol Gymraeg' yn annog pobl i ddod i'r gwersi a sgwrsio gyda phobl sy'n dangos diddordeb yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant. Mae'n syndod faint o ddiddordeb sydd gan bobl o bob oed a thras yn y Gymraeg yma, ac mae'n bwysig i ni fwydo'r diddordeb yma gyda gwybodaeth a brwdfrydedd trwy fod yn barod i drafod, a thrwy fod yn rhan go iawn

o'r gymuned gyfan ... boed hynny'n gymryd rhan mewn cyngerdd gyda'r côr; mewn gwasanaeth gydag un o'r capeli; hyfforddi pobl ar gyfer cystadleuthau eisteddfodol; beirniadu mewn eisteddfod neu fynd ar wibdaith i dref neu gyrchfan diddorol arall ar gyfer 'Sadwrn Siarad' fel sydd newydd fod ym Mhorth Madryn. Ydy'n wir, mae'r swydd hon gymaint yn fwy na swydd ddysgu ... ond 'dw i ddim yn achwyn o gwbl – trwy'r gofynion eraill yma ar fy amser 'dw i wir yn teimlo 'mod i'n rhan o'r Wladfa am gyfnod.

Fel dywedais ar y dechrau, mae'r flwyddyn hon wedi bod yn farathon o weithgareddau. Marathon o weithgareddau sydd wedi gofyn am stor ddi-waelod o egni ar brydiau ... ond mae pob profiad wedi fy nghyfoethogi i'n bersonol yn ogystal ac wedi bod o fudd i bobl Y Wladfa gobeithio. A 'dyw e' ddim wedi dod i ben eto chwaith, diolch byth. Mae gen i dri mis o fwrlwm a phleser o'm blaen, ac mae gan bwy bynnag fydd yn ein dilyn, dri mis i gymryd eu fitaminau a dechrau storio'u hegni ar gyfer eu hantur egniol hwythau hefyd!

Hasta luego am nawr. Menna